| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 25 Mawrth 2025 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Diane King (Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc) |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Geraint Davies (Pennaeth Addysg) |
| **Awdur yr adroddiad** | Geraint Davies |
| **Testun** | Dod â'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol i Ben |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Lluniwyd yr adroddiad hwn mewn ymateb i adolygiad o swyddogaethau a chyfrifoldebau 'haen ganol' y gyfundrefn addysg yng Nghymru a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a Rhagfyr 2023.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi'r wybodaeth berthnasol i'r Cabinet ynghylch y newidiadau sy'n ofynnol ac argymell ffordd ymlaen wrth ymgymryd â swyddogaethau statudol ym maes gwella ysgolion wedi i GwE ddod i ben.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor hwn o blaid terfynu'r cytundeb i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill yng ngogledd Cymru yng nghyd-destun y Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion rhanbarthol (GwE) ar 31 Mai 2025 a diddymu'r gofyn am y Cydbwyllgor GwE yn sgil hynny.

3.2. Bod y Cyngor hwn yn cadarnhau ei rwymedigaeth dan y contract wrth ddod â'r trefniant hwn i ben.

3.3. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen yr Asesiad o Effaith ar Les **(Atodiad 1)**, ei ddeall a'i ystyried wrth ddod i benderfyniad.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Sefydlwyd GwE drwy gytundeb rhwng y chwech o Awdurdodau Lleol yng ngogledd Cymru ar 18 Chwefror 2013 **(Atodiad 2)**.

4.2. Penderfynwyd sefydlu Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fyddai'n atebol i'r chwe Chyngor ac yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau hynny ym maes effeithiolrwydd a gwella ysgolion; hynny yw, dyletswyddau monitro, herio, darparu gwasanaethau i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus gydol y cwricwlwm a rheoli ysgolion, yn ogystal â darparu gwasanaethau y gallai ysgolion ac awdurdodau lleol eu comisiynu.

4.3. Cytunodd y cynghorau i benodi Cyngor Gwynedd yn Awdurdod Lletyol ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth drwy ffurfio Cydbwyllgor i gadw gorolwg ar y gwasanaeth a chynghori fel y bo'r gofyn, yn unol ag Adrannau 101(5) a 102(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

4.4. Ar 31 Ionawr 2024, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd ddatganiad ysgrifenedig yn sôn am adolygu swyddogaethau a chyfrifoldebau partneriaid Addysg yng Nghymru yn ogystal â'r trefniadau presennol ar gyfer gwella ysgolion. Roedd yn ddatganiad pendant o fwriad i roi'r gorau i'r dull rhanbarthol o wella ysgolion o blaid sefydlu partneriaethau rhwng mwy nag un o awdurdodau'n fwy lleol. Cadarnhawyd wedi hynny y deuai consortiwm rhanbarthol GwE i ben.

4.5. Yn sgil y datganiad, sefydlwyd Bwrdd Trosiannol i oruchwylio'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwasanaethau GwE i'r awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru a datblygwyd strwythurau i'r awdurdodau lleol unigol ddarparu cefnogaeth i ysgolion.

4.6. Mae angen rhoi sêl bendith ffurfiol ar y cytundeb ar gyfer cydweithio mewn partneriaeth yn y cyd-destun hwn, fodd bynnag. I wneud hynny, mae angen i'ch chwech o Gynghorau gytuno'n ysgrifenedig i derfynu'r cytundeb presennol. Felly, gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r argymhelliad i ddiddymu'r cytundeb cydweithio hwn a chadarnhau y daw GwE i ben ar 31 Mai 2025.

4.7. Dylid nodi nad yw terfynu'r cytundeb yn effeithio ar hawliau a gronnwyd na'r ymrwymiadau hynny y cytunwyd arnynt eisoes. Manylir ynghylch yr

ymrwymiadau hynny yn y cytundeb a wnaed rhwng y chwech o Awdurdodau yn 2013.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae'r maes gwaith hwn yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn lle iachach a hapusach lle mae pobl ifanc yn dymuno byw a gweithio ac yn meddu ar y sgiliau i wneud hynny. Mae hefyd yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn rhywle lle gall pobl ifanc ddysgu a gwneud cynnydd da yn eu sgiliau, gan ddysgu mewn amgylchedd teg a diogel. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod bob dysgwr yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn gallu cyflawni eu llawn botensial.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r costau refeniw blynyddol parhaus yn sgil diddymu GwE wedi'u cynnwys yng nghyllideb y Gwasanaeth Addysg. Mae'n anodd pennu costau pendant gan nad yw'r trefniadau Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth wedi'u pennu eto, ac felly mae'n amhosib darogan y gwir gostau staffio.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Bydd terfynu'r gwasanaeth fel y cynigir yn cael effaith niwtral ar Sir Ddinbych ar y cyfan. Wrth fwrw ymlaen â chyflawni'r cynlluniau, cyfyd cyfleoedd i sicrhau buddion.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhaliwyd ymgyngoriadau a thrafodaethau â Swyddogion, Estyn, Llywodraeth Cymru, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Penaethiaid a'r Aelod Arweiniol. Mae'r Pwyllgor Craffu Perfformiad wedi craffu ar waith GwE yn gyson.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid yw'r drefn ar gyfer diddymu GwE na'r costau untro wedi'u pennu eto. Dechreuodd yr ymgynghoriad ffurfiol ym mis Rhagfyr 2024. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd cyllideb drosiannol o £2 filiwn ar gyfer Cymru gyfan. Cyhoeddir y symiau a ddyrennir i bob Awdurdod yn y flwyddyn newydd.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae symud o ddull rhanbarthol o wella ysgolion i ddull dan arweiniad awdurdodau lleol yn digwydd mewn cyfnod o gryn ddiwygio ym myd Addysg yng Nghymru, gan gynnwys cwricwlwm newydd, cymwysterau TGAU newydd a’r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae angen cynllunio a rheoli’n ofalus yn sgil yr amryw newidiadau hyn yn y gyfundrefn, yn enwedig yng nghyd-destun gwella ysgolion er mwyn sicrhau fod yno gefnogaeth ddi-dor i’r holl ysgolion a galluogi’r holl ysgolion a dysgwyr i ddal ati i lwyddo.

10.2. Mae’r hinsawdd ariannol sydd ohoni’n creu her arwyddocaol i’r holl ysgolion ac awdurdodau lleol. Fel awdurdod lleol, rydym yn ymgynghori â’n budd-ddeiliaid wrth lunio ein dull a phrosesau gwella ysgolion i fodloni anghenion ysgolion ledled Sir Ddinbych, ond nid yw’r dyraniadau cyllid wedi’u cadarnhau’n genedlaethol eto. Mae rhywfaint o risg yn gysylltiedig â datblygu gweithlu digonol i gefnogi gwelliant ymysg yr ysgolion ac ar lefel awdurdod lleol.

10.3. Cydnabyddir y bydd angen cynnal mwy o drafodaethau wedi i’r cyfnod pontio ddod i ben ynglŷn ag agweddau ehangach ar y swyddogaethau y mae GwE’n eu cyflawni ar hyn o bryd, fel dysgu proffesiynol, er enghraifft. Gallai hynny ddigwydd gam wrth gam wrth inni ddatblygu trefn o weithio ymysg ysgolion ac yn rhan o hynny, bydd Sir Ddinbych yn meithrin cyswllt â’r chwech o awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru ac yn ystyried yr hyn y mae Llywodraeth Cymru’n ei gynnig yn genedlaethol.

10.4. Yn ystod y cyfnod pontio, cedwir cofrestr risg fanwl er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i feysydd risg allweddol, boed y rheiny’n deillio o weithio’n rhanbarthol neu’n lleol, a chymerir camau lliniaru yn ôl y gofyn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adrannau 101(5) a 102(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

11.2. Adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.